TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Hairdressing (Adults) Level 1

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn wedi'i ddylunio ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa trin gwallt, ac mae'n ddelfrydol os oes gennych ychydig neu ddim sgiliau na phrofiad presennol yn y maes hwn. Bydd y cwrs hwn hefyd yn datblygu eich sgiliau gwasanaeth cwsmer wrth ddelio â chleientiaid.

Dyma'r cwrs i chi os...

...wrth eich bodd â thrin gwallt a harddwch

...rydych eisiau newid eich gyrfa

...rydych yn hoff o dorri gwallt eich ffrindiau a theulu ac eisiau ennill cymhwyster.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn dysgu amrywiaeth o sgiliau trin gwallt, yn cynnwys:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ymgynghoriadau â chleient
Sgiliau derbynfa
Golchi gwalltiau
Chwythsychu
Torri sylfaenol
Y grefft o addurno gwallt
Gwallt i fyny
Lliwio gwallt
Creu steil gwallt cyflawn gan ddefnyddio lliw

A byddwch yn dysgu'r uchod drwy:

Ddosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg
Sesiynau masnachol
Arddangosiadau
Ymarferion chwarae rôl
Gwaith grwp
Lleoliad gwaith
Gweithgareddau cyfoethogi megis teithiau, ymweliadau, siaradwyr gwadd a sgyrsiau diwydiannol

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion amlddewis ar-lein yn ymdrin â'ch gwybodaeth sylfaenol. Unwaith y byddwch wedi'i gwblhau, byddwch yn cyflawni:

NVQ Lefel 1 mewn Trin Gwallt ac Unedau L2 mewn Trin Gwallt
Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ddilyn y cwrs byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd G neu uwch yn cynnwys Mathemateg/Rhifedd a Chymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol. Bydd ymgeiswyr heb yr isafswm TGAU yn cael eu hystyried ar sail profiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd angen i chi fod yn hunan-ysgogol, yn weithgar, yn gyfeillgar a bod â lefel uchel o gyflwyniad personol.

Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn un o brif ofynion y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith byddwch wedi cwblhau'r cwrs, gallwch symud ymlaen at NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt neu gyflogaeth ar lefel prentis dan hyfforddiant.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg:

Rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon mewn salonau
Gwallt wedi'i glymu'n ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd na farnais ewinedd
Dim gemwaith na thlysau, cewch wisgo modrwy briodas yn unig yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £192.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Ar gyfer 2023/2024 bydd y coleg yn ariannu'r gost o un wisg salon lawn. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2023/2024 yw £45.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.